

Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Y mater

Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) yw cynllun newydd Llywodraeth Cymru yn lle Cynllun y Taliad Sylfaenol, hen gynllun cymorth amaethyddol yr UE. Mae Soil Association Cymru yn croesawu'r SFS – credwn fod ganddo botensial i gyflymu'r broses o fabwysiadu systemau ffermio sy'n gweithio gyda natur mewn ffordd sy'n sail i'w cynhyrchiant a'u gwynnwch. Bydd gweddill gwaith cynllunio'r cynllun a'i weithredu yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y SFS yn cefnogi ffermwyr sy'n gyfeillgar i natur yn barod, ac yn dwyn manteision i natur, yr hinsawdd a phobl.

Pam mae'n bwysig i Gymru

Mae ffermio wrth galon bywyd yng nghefn gwlad Cymru. Mae'n llunio ein tirweddau, yn cynnal cymunedau, ac yn darparu bwyd i Gymru a thu hwnt. Mae'r SFS yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i ddiwygio'r ffordd y mae arian cyhoeddus yn cefnogi ffermio, er mwyn iddo fod yn fwy gwydn wrth wynebu heriau amgylcheddol ac economaidd cynyddol, ac i ateb anghenion cymdeithasol yr 21st ganrif. Yn hytrach na thaliadau sy'n seiliedig ar ddefnydd tir amaethyddol, rhaid i'r cynllun wobrwyo ffermwyr am y buddion amgylcheddol a chymdeithasol y maent yn eu darparu, o briddoedd iach, da byw a bywyd gwyllt ffyniannus i ddŵr glân a gweithredu ar yr hinsawdd.

Os caiff ei wneud yn dda, gallai'r SFS helpu i ledaenu arferion sy'n gyfeillgar i natur, gan gynnwys integreiddio coed yn well o fewn systemau fferm, ac arferion ffermio sy'n hyrwyddo iechyd pridd – gan gynnwys ffermio organig – er mwyn torri allyriadau a lleihau dibyniaeth ar gemegau. Rydym am i'r cynllun wobrwyo'r ffermwyr hynny sydd eisoes yn arwain y ffordd ar hyn, wrth helpu eraill i gymryd y camau cyntaf. Rydym am weld newid sylfaenol mewn cyngor fferm, gan fabwysiadu ymagwedd sy'n cwmpasu'r fferm gyfan ac sy'n helpu ffermwyr i ddatgloi cydweithrediad rhwng cynhyrchu bwyd a chyflawni nodau amgylcheddol, ochr yn ochr â thaliadau teg a mentrau cadwyn gyflenwi i wneud i'r newid weithio.

Cyd-fynd â chyd-destun polisi Cymru

Rydym yn cefnogi'r SFS fel mecanwaith cyflawni ar gyfer **Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023**, **Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**, **Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026**, a **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**. Rhaid i'r SFS gyd-fynd â thargedau a strategaethau hinsawdd, bioamrywiaeth a choetiroedd Cymru, a chydgyssylltu â'r Strategaeth Fwyd Cymunedol a'r weledigaeth strategol ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod. Rhaid i'r SFS aros o dan graffu'r Senedd drwy gydol y cyfnod pontio.

Ein safbwynt

Rydym yn cefnogi ymagwedd arian cyhoeddus am nwyddau cyhoeddus, wedi'i seilio ar:

- Gwobrau teg am gyflawniad amgylcheddol sy'n bodoli'n barod
- Targedau uchelgeisiol ar gyfer adfer coetiroedd a chynefinoedd
- Cymorth cryfach ar gyfer ffermio organig ac agroecolegol
- Buddsoddi mewn hyfforddiant, cyngor, a dysgu cyfoed-i-gyfoed
- Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) tryloyw ac adrodd ar ddata pridd/carbon

Cysylltu/gwybodaeth ychwanegol

Andrew Tuddenham, Pennaeth Polisi Cymru atuddenham@soilassociation.org

Amy Cartwright, Cynorthwy-ydd Polisi Cymru acartwright@soilassociation.org

www.soilassociation.org/who-we-are/soil-association-wales



Sut rydym yn mynd i'r afael â hyn

Mae Soil Association Cymru wedi darparu ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â'r SFS ers 2020. Mae ein Pennaeth Polisi Cymru, Andrew Tuddenham, wedi bod yn aelod o holl grwpiau Gweinidogol y SFS a sefydlwyd yn 2024, gan gynrychioli Cyswllt Amgylchedd Cymru hefyd ar y Bwrdd Crwn Gweinidogol a'r Panel Adolygu Tystiolaeth Dal Carbon. Mae wedi darparu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i ymholiadau pwyllgorau'r Senedd i'r SFS a pholisi cysylltiedig ers 2024. Mae'r Soil Association hefyd yn arwain prosiect partneriaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru i nodi gweithredoedd lles anifeiliaid cadarnhaol at eu cynnwys o bosibl yn Haen Ddewisol y SFS.

Yr hyn rydym eisiau i lunwyr polisïau yng Nghymru ei wneud

- **Gosod targedau mesuradwy ar gyfer y SFS:** Dyblu arwynebedd coetir fferm erbyn 2050; dim colled o goetir hynafol; 75% mewn cyflwr da neu'n gwella erbyn 2030.
- **Dyrannu cyllid yn effeithiol:** Dyrannu o leiaf 50% o'r gyllideb i weithredoedd Dewisol/Cydweithredol erbyn 2029; sicrhau Taliad Cyffredinol teg.
- **Buddsoddi mewn cyngor a hyfforddiant:** Sefydlu safonau cenedlaethol ar gyfer cyngor fferm ac integreiddio ardystiad organig i Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DTP).
- **Sicrhau tryloywder ac atebolrwydd:** Cyhoeddi data pridd a KPI safoni dulliau cyfrifiannell carbon; osgoi mesurau sy'n anwybyddu canlyniadau ehangach.
- **Gwarantu mewnbwn rhandaliad:** Mae proses Bwrdd Crwn Gweinidogol y SFS wedi bod yn hollbwysig i ddatblygiad y cynllun, a dylai proses gyfatebol o ymgysylltu â rhandaliad barhau i helpu i lywio'r cynllun drwy'r Cyfnod Pontio.
- **Integreiddio i bolisi cysylltiedig:** Er bod y SFS yn cael ei osod fel mecanwaith cyflawni allweddol ar gyfer strategaethau hinsawdd, bioamrywiaeth a choetiroedd Cymru, ar hyn o bryd nid oes gan y cynllun dargedau diffiniedig ar gyfer natur, ac nid yw ei gyfraniad disgwylidig at dargedau natur a hinsawdd wedi'i feintioli. Yn yr un modd, mae angen cydgysylltiad rhwng y SFS a'r weledigaeth strategol ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod a'r Strategaeth Fwyd Cenedlaethol arfaethedig.

Tystiolaeth/cyfeiriadau

- [Summary of Soil Association Cymru's response to the Sustainable Farming Scheme: Keeping farmers farming Consultation](#)
- [Welsh Government announces Sustainable Farming Scheme](#)
- [Welsh Sustainable Farming Scheme Announcements by Soil Association & TFA](#)

Cysylltu/gwybodaeth ychwanegol

Andrew Tuddenham, Pennaeth Polisi Cymru atuddenham@soilassociation.org
Amy Cartwright, Cynorthwy-ydd Polisi Cymru acartwright@soilassociation.org

www.soilassociation.org/who-we-are/soil-association-wales

